Christmas Challenge BigGive

ARIAN I FADAGASCAR

# Dyblwch eich dylanwad...



## Newidiwch fywyd plentyn



## Rhoi Mawr: Dydd Mawrth 2 i Ddydd Mawrth 9 Rhagfyr 2025

# Dyblwlch Eich Dylanwad, Trawsnewidiwch Ddyfodol Plentyn

## Her Nadolig y Rhoi Mawr

## Dydd Mawrth 2 i Ddydd Mawrth 9 Rhagfyr 2025

Wrth i Arian i Fadagascar nesu at ei phen-blwydd yn 40 yn 2026, dyma wahoddiad i chi fod yn rhan o symudiad nerthol i newid bywydau. Targed ymgyrch y Rhoi Mawr eleni yw £100,000 – y mwyaf erioed – i gefnogi dwy raglen allweddol: **Addysg am Oes** a **Plant i'r Dyfodol**, gan helpu plant Malagasi i gael yr addysg, y gofal a'r diogelwch y maen nhw'n ei haeddu.



### Realiti Madagascar

Mae Madagascar yn wlad hynod o hardd a'i bioamrywiaeth yn rhyfeddol. Eto, y tu cefn i'r prydferthwch, mae realiti cas:



- Madagascar yw pedwerydd gwlad dlota'r byd ac mae 90% o'i phobl yn byw o dan y llinell dlodi ryngwladol o £2.22 y dydd
- Mae hanner plant Madagascar yn dioddef o ddiffyg prifiant oherwydd diffyg maeth; mae un o bob deg yn marw cyn bod yn ddeg oed, a dyw pedwar o bob deg ddim yn gorffen mewn ysgol gynradd
- Mae llawer yn ddigartref, yn agored i'w cam-drin ac yn gorfod mabwysiadu ffyrdd o fyw peryglus er mwyn goroesi

### Sut y mae eich cymorth yn helpu

Mae Arian i Fadagascar yn gweithio law yn llaw gyda chymunedau lleol i ddarparu:

- Llochesi diogel, bwyd maethlon, dŵr glân, dillad, gofal iechyd a chefnogaeth emosiynol i blant sy'n methu â byw gyda'u teuluoedd
- Addysg safonol hygyrch, trwy:
  - ◊ adnewyddu ysgolion, hyfforddi athrawon, offer, ynni glân, prydau ysgol, dŵr glân a hyfforddiant iechyd a hylendid

### Dyblwch eich Dylanwad

Gall eich cyfraniad ddyblu eich dylanwad.
Yn ystod wythnos y Rhoi Mawr, bydd pob rhodd £10 yn troi yn £20 – gan ddyblu eich effaith ac estyn eich cyrhaeddiad. Os byddwch yn ychwanegu Cymorth Rhodd, bydd y £10 yna yn rhoi £25 i helpu plant Malagasi a'u cymunedau.

### Helpwch ni i ddechrau'r 40 gyda gobaith

Cyfrannwch rhwng dydd Mawrth 2 Rhagfyr a dydd Mawrth 9 Rhagfyr ar wefan y Rhoi Mawr:

https://donate.biggive.org/campaign/a05WS000063HnFYAU or find out more at https://moneyformadagascar.org/get-involved/big-give-2025/

**Cofiwch y dyddiad. Rhannwch y neges. Newidiwch fywyd.**